

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



DARLLENWCH
I Brenhinoedd 16:29-33
ac 17:1-7




ADNOD
ALLWEDDOL
I Brenhinoedd 17:5

Astudiaeth I Elias – Cosb Duw

Awgrymiadau am Adnодau Eraill i'w Darllen
Deuteronomium 7:1-6 Pregethwr 4:13

Yn yr adnодau hyn, cawn ein cyflwyno i Ahab, seithfed brenin Israel, a fu ar ei orsedd am 22 o flynyddoedd. Fe oedd y brenin gwaethaf a gafodd Israel erioed! Dywedir hyn yn bendant yn adnодau 30 a 33 o bennod 16.



C Beth mae'r adnодau hyn yn ei ddweud amdano?

Un o'i gamgymeriadau mwyaf oedd priodi tywysoges baganaidd ddrwg.

C Pwy oedd hi?

O dan ei dylanwad hi, trodd Ahab ei gefn ar wir Dduw Israel.

C Yn ôl adnod 32, beth wnaeth e wedyn?


--

Dechreuodd llawer o bobl Israel addoli eilunod. Trodd yr holl genedl ei chefn ar Dduw ac addoli a gwasanaethu Baal, y dduwies Asera a duwiau ffug eraill.

GRID GEIRIAU

Ar draws

- Brenin o'r blaen, mab Nebat.
- Tad-ynghyfraith Ahab.
- Tad Ahab.
- Brenin Jwda ar y pryd.
- Gwraig Ahab.



2

1

1

5


I

Yn sydyn, mae cymeriad newydd yn ymddangos. Mae ei enw wedi'i guddio yn y Grid Geiriau ar y dudalen cynt.

- C Lliwiwch un sgwâr ym mhob llinell i ddangos enw'r proffwyd dewr hwn.**
Ysgrifennwch ei enw yma.

Fe ddaeth o ucheldir Gilead ar draws yr afon lorddonen. Safodd o flaen y brenin drwg ym moethusrwydd ei balas, gyda neges oddi wrth Dduw.

- C Beth oedd y neges?**



2


Tybed pam roedd Duw am atal y glaw? Rydyn ni'n gwybod o Deuteronomium 11 fod hon yn ffordd a ddefnyddiai Duw i gosbi Ei bobl am anwybyddu Ei Air.

- C Darllenwch Deuteronomium 11:16 ac 17, a dweud yn fyr yn eich geiriau'ch hunan beth roedd Duw'n ei ddweud wrthynt.**

2

Gan ufuddhau i Dduw, dihangodd Elias yn ôl dros yr afon, i guddio ger nant.

- C Beth oedd enw'r nant hon?**



I

Byddai Elias yn cael dŵr ffres o'r nant i'w yfed yn ystod y sychder oedd ar ei ffordd, ond beth am fwyd? Addawodd Duw y byddai'n rhoi popeth roedd arno'i angen i Elias.

- C Sut cafodd Elias ei fwydo a beth oedd ei fwyd?**

I

- C Pa mor aml y byddent yn dod â bwyd iddo bob dydd?**

I

- C Ysgrifennwch y geiriau yn yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym fod Elias wedi ufuddhau i Dduw.**

I

Mae'r enw 'Elias' yn golygu 'Jehofa yw fy Nuw'

'JEHOFA' yw'r enw ar y gwir Dduw byw.

- C Pam mae Elias yn enw addas i'r proffwyd hwn?**

2



Astudiaeth 2 Elias – Darpariaeth Duw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 6: 31-34 Hebreadi 11: 32-35 Iago 5: 16

DARLLENWCH

I Brenhinoedd 17: 7-24




ADNOD

ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 17: 24

Erbyn hyn roedd y sychder wedi dod fel roedd Elias wedi'i gyhoeddi. Roedd newyn yn siŵr o fod ar ei ffordd! Wrth i'r dyddiau a'r wythnosau fynd heibio, sychodd y nant lle roedd Elias yn cael dŵr. Roedd Duw wedi'i gyfeirio i'r lle tawel, unig yma i ddechrau, ac wedi'i fwydo mewn ffordd wyrthiol. Nawr, fe arhosodd Elias am i Dduw ddweud wrtho beth i'w wneud nesaf. Ni siomodd Duw Elias.




CROESAIR

Mae'r cliwiau i'w gweld yn y stori isod.

Dywedodd yr Arglwydd wrth Elias am fynd i dref (4 ar draws) lle byddai gwraig (7 i lawr) yn ei fwydo.

Pan ddaeth Elias at (2 i lawr) y dref, roedd gwraig (7 i lawr) yno yn casglu priciau. Gofynnodd Elias iddi am ddiod o (6 ar draws). Wrth iddi fynd i nôl y ddiod, gofynnodd Elias iddi am fara. Er mai ychydig oedd ganddi, gwnaeth deisen i Elias. Roedd hyn yn dangos bod ganddi (5 i lawr) yn Elias ac yn Nuw.

Ar ôl peth amser, aeth (1 ar draws) y wraig yn sâl a marw. Aeth Elias ag ef i'w lofft a'i roi i orwedd ar ei (8 ar draws) ei hun. Gorweddodd dros y bachgen (3 i lawr) gwaith a gweddio ar Dduw.



8

Mae'r darn hwn yn sôn am ddwy wyrth. Gwelwn sôn am y gyntaf yn y neges a roddodd yr Arglwydd i Elias i'w rhoi i'r wraig weddw yn adnol 14.

C Beth oedd y neges hon?

2

Yn y ffordd hon, llwyddodd Duw i ddarparu ar gyfer Elias a'r wraig weddw a'i mab. Rhoddodd Iety i Elias hefyd.

C Lle roedd Elias yn byw yn y cyfnod hwn?

1


Ar y diwrnod cyntaf, pan ddaeth Elias i'r dref, dywedodd wrth y wraig weddw am wneud rhywbeth CYN gwneud bwyd iddi hi a'i mab.

I

C Beth oedd hynny?

Mae hynny'n swnio'n hawdd ar yr olwg gyntaf. Pe na bai geiriau Elias yn dod yn wir, byddai hi mewn sefyllfa hyd yn oed yn waeth nag o'r blaen. Wrth wneud fel y gofynnodd Elias iddi, roedd yn dangos bod ganddi ffydd yn Nuw a ffydd yn Elias, ei broffwyd. Un diwrnod, aeth ei mab yn sâl a bu farw.

Yn ei galar a'i thristwch, roedd y wraig weddw'n beio Elias. Nid bai Elias oedd bod ei mab wedi marw ond gwediodd Elias ar Dduw. Mae dwy ran i'w weddi. Cwestiwn yw'r rhan gyntaf, cyn iddo orwedd ar draws y bachgen.



C Ysgrifennwch y cwestiwn.

Cais yw'r ail ran, wedi iddo orwedd ar draws y bachgen.

2

C Ysgrifennwch y cais.

Ymateb i weddi Elias oedd yr ail wyrth.

2

C Ysgrifennwch y geiriau o'r Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud bod Duw wedi ateb gwedi Elias.

Yn yr Adnod Allweddol, mae'r weddw'n datgan ei ffydd yn Nuw ac yn ei broffwyd, Elias.

2

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

I

Roedd Duw wedi gwneud fel yr oedd wedi'i addo i'r wraig weddw ac i Elias! Mae Duw yn addo bywyd tragwyddol i ni os credwn yn yr Arglwydd lesu. Mae hynny'n addewid werth chweil.

C Ysgrifennwch yr addewid a welir yn loan 3:15.

I



Astudiaeth 3 Elias – Nerth Duw

Awgrymiadau am Adnодau Eraill i'w Darllen

Josua 24:15 Eseia 45:21 a 22 Hebreaid 12:29

DARLLENWCH

I Brehinoedd 18:1 - 46



ADNOD
ALLWEDDOL

Iago 5:17 ac 18

Ar ôl misoedd lawer, dywedodd Duw wrth Elias bod y sychder ar fin dod i ben. Dywedodd Duw wrtho am fynd i'w gyflwyno ei hunan i'r Brenin Ahab unwaith eto.

C Am faint o amser barodd y sychder? (Edrychwrch yn yr Adnod Allweddol)

1

Pan oedd ar y ffordd, daeth Elias ar draws Obadeia, goruchwylwr ym mhalas y brenin ac un oedd yn credu'n gryf yn Nuw! Mae'n rhaid ei bod yn anodd i Obadeia weithiau – credu yn Nuw ond gorfod uffuddhau i'r brenin. Dywedodd Obadeia wrth Elias fod y brenin wedi bod yn chwilio amdano ym mhob man.

Yn nes ymlaen, daeth Elias wyneb yn wyneb ag Ahab. Meddai Ahab wrth Elias "Ai ti sydd yna, gythryblwr Israel?" Gwylltiodd Elias. Dywedodd wrth y brenin mai ef a'i deulu oedd yn cythryblu Israel.

C Ym mha ffyrdd roedd Elias yn dweud bod Ahab a'i deulu wedi achosi trafferth yn Israel?

2

Rydyn ni'n cael gwybod mwy am y frenhines ddrwg, Jesebel, yn y bennod hon. Yn ogystal ag annog pobl i addoli duwiau ffug, roedd yn cynnal 850 o broffwydi ffug. Hyd yn oed yn waeth na hynny, roedd wedi llofruddio llawer o broffwydi'r Arglwydd. (Adnодau 13 ac 19).

C Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys llawer o rifau. Nodwch ym mha adnod mae'r rhifau hyn yn digwydd ac at beth maen nhw'n cyfeirio.

Rhif	Adnod	Mae'n cyfeirio at ...
4		
7		
12		
100		
450		

5

Dyweddodd Elias wrth y Brenin Ahab am gasglu holl bobl Israel a'r proffwydi ffug ynghyd ar Fynydd Carmel. Pan oedd pawb wedi cyrraedd, dechreuodd Elias eu hannerch.

C Ysgrifennwch ei eiriau cyntaf o adnod 21.

1

Roedd pawb yn dawel! Yna, cynigiodd Elias gael rhyw fath o gystadleuaeth rhyngddo fe a'r 850 o broffwydi ffug – sef rhwng Duw a Baal mewn gwirionedd. O'r bore tan gyda'r nos, bu proffwydi Baal yn neidio o gwmpas eu hallor ac yn eu hanafu eu hunain â chyllly a phicellau gan alw ar eu duw. Ond chawson nhw ddim ateb. Yna, camodd Elias ymlaen. Daeth ei dro ef. Trwsiodd Elias hen allor i'r Arglywydd.

C Nodwch yn fyr, YN EICH GEIRIAU CHI'CH HUNAN pa baratoadau a wnaeth Elias cyn gweddio ar Dduw.

I

Wrth i Elias weddio ar Dduw, dangosodd yr Arglywydd ei nerth trwy anfon tân o'r Nefoedd.

C Beth wnaeth tân yr Arglywydd?

I

Pan welodd yr holl bobl hyn, fe syrthion nhw ar eu hwynebau ar y ddaear.

CHWILAIR

Cylchwrch yr atebion i'r cliwiau isod yn y CHWILAIR. Yna, defnyddiwch y llythrennau sydd heb eu defnyddio, yn eu trefn, o'r chwith i'r dde, o'r top i'r gwaelod, i gael gwybod beth ddywedodd y bobl. Ysgrifennwch eu geiriau yn y blwch isod.

- Roedd y newyn yn ddrwg yma.
- Enw'r mynydd lle digwyddodd y 'gystadleuaeth'.
- Dyma lle cafodd proffwydi Baal eu lladd.
- Rhoddodd Elias ei wyneb rhwng ei _____.
- Gadawodd Ahab y mynydd mewn _____.
- Roedd y cwmwl cyntaf ddaeth i'r golwg maint _____ dyn.
- Sut aeth Elias i Jesreel?

C	E	R	B	Y	D	C
A	U	A	I	N	I	L
R	Y	R	A	R	G	E
M	L	W	Y	DD	S	D
E	C	I	S	O	N	R
L	Y	DD	DD	U	W	LL
S	A	M	A	R	I	A
G	E	D	E	RH	W	

7

I

Roedd hwn yn ddiwrnod i'w gofio i bobl Israel. Fe wnaethon nhw sylweddoli pa mor ffôl y buon nhw a throi nôl at yr Arglywydd. Ydych chi wedi dod i benderfyniad tebyg a rhoi eich bywyd i'r Arglywydd?

Mae'r Adnodau Allweddol yn dweud wrthym fod Elias wedi gweddio eto..

C Beth ddigwyddodd mewn ymateb i'r ail weddi?

--	--	--

I

Beth oedd yn arbennig am weddiau Elias? Doedd Elias ddim yn ddyn arbennig ond roedd yn byw mewn ffordd oedd yn plesio Duw. Mae gweddiau pobl felly yn rymus ac yn effeithiol. Darllenwch lago 5:16.



DARLLENWCH

I Brenhinoedd 19: 1-18

ADNOD
ALLWEDDOL
lago 4: 8

Astudiaeth 4 Elias – Presenoldeb Duw



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 40: 29 - 31 Hebreaid 13: 5 a 6

Ar ôl ei fuddugoliaeth ar Fynydd Carmel, roedd Elias mewn perygl. Pan ddywedodd y Brenin Ahab wrth y Frenhines Jesebel beth oedd wedi digwydd, anfonodd hi neges at Elias.



C Ysgrifennwch yn eich GEIRIAU EICH HUNAN beth oedd y neges.

1

C Sut wnaeth Elias ymateb i neges Jesebel?

Rhowch ✓ neu X i ddangos pa frawddegau sy'n gywir a pha rai sy'n anghywir.

Doedd dim ofn arno.

.....

Aeth i guddio wrth y nant eto.

.....

Aeth tua'r de o Israel i Jwda.

.....

Gadawodd ei was ac aeth i'r anialwch ar ei ben ei hunan.

.....

Ar ôl cerdded trwy'r dydd, eisteddodd o dan goeden.

.....

Bu ar ddihun trwy'r nos.

.....

6

Roedd Elias yn ddigalon. Roedd yn teimlo'n unig iawn. Roedd wedi gwneud ei orau. Roedd yn teimlo mai fe oedd yr unig un i sefyll i fyny dros Dduw yn Israel ac nad oedd yn cael dim diolch am hynny. Roedd yn cuddio oddi wrth bobl oedd eisiau ei ladd. Roedd mor ddigalon nes y gofynnodd i Dduw adael iddo farw.

Ond doedd Duw ddim wedi anghofio amdano!

C Darllenwch Salm 103: 13 ac 14. Ysgrifennwch yr adnodau a thanlinellu'r rhannau sy'n dangos ein bod ni'n werthfawr i Dduw.

2

Roedd hyn yn wir am Elias. Er ei fod wedi blino'n lân ac yn ofnus iawn, roedd Duw yn deall sut oedd yn teimlo ac yn ei galonogi.

C Pwy anfonodd Duw at Elias?

--

2

C Beth anfonodd Duw i Elias?

--

Wedi iddo gysgu a bwyta ddwywaith, roedd Elias yn barod i symud ymlaen!

C Rhowch y brawddegau hyn yn eu trefn gywir trwy ysgrifennu'r rhifau 1 – 5 yn y bocsys.

- Siaradodd yr Arglwydd ag Elias mewn llais bach tawel.
- Daeth Elias i Fynydd Horeb (Sinai) a threulio'r noson mewn ogof.
- Teithiodd Elias am 40 dydd a 40 nos.
- Daeth gwynt cryf, yna daeargrynn ac wedyn tân.
- Dywedodd Duw wrth Elias am fynd a sefyll ar y mynydd.

Roedd yr hyn a ddigwyddodd ar Fynydd Horeb yn arbennig iawn i Elias gan fod Duw wedi siarad ag ef mewn ffordd ryfedol. Daeth yn amlwg iddo bod Duw'n gwybod mwy amdano nag yr oedd wedi sylweddoli.

C Dealloedd pa mor wir yw rhan gyntaf yr Adnod Allweddol. Ysgrifennwch y rhan hon o'r Adnod Allweddol.

Mae hyn yn dal yn wir heddiw! Er ein bod ni'n bechaduriaid, ni fydd Duw yn ein gwrthod os gofynnwn iddo'n derbyn. (loan 6: 37)

Mae'n bwysig i bawb, hyd yn oed Gristnogion, gofio hyn. Ar ôl i Elias gwrdd â Duw, cafodd nerth a brwd frydedd newydd i fynd ymlaen i weithio. Anfonodd yr Arglwydd ef i'r anialwch i eneinio tri o bobl.



C Pwy oedden nhw?

A ninnau wedi cyrraedd diwedd yr astudiaethau am Elias, gallwn weld ei fod yn was da iawn i Dduw! Mewn dyddiau pan oedd y Brenin Ahab a'r Frenhines Jesebel yn dylanwad drwg ar y genedl, mae'n rhyfeddol meddwl am y daioni wnaeth Elias. Roedd gan Elias, fel ninnau, ei wendidau ond, gyda chymorth Duw, roedd yn rhyfeddol o gryf! Gallwch chi fod yn was da i Dduw hefyd os gadewch iddo reoli'ch bywyd gan gredu yn eich calon ei fod yn eich caru gymaint nes iddo roi ei Fab i fod yn waredwr i chi!

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm
Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, PO Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddir yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120